

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Elaine Edwards

Sefydliad (os yn berthnasol): Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

e-bost/rhif ffôn: ucac@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **15 Ionawr 2015** i:

Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu lenwi'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

earlyyears@wales.gsi.gov.uk

Cwestiwn 1 - A fydd y fframwaith hwn yn helpu i adnabod y meysydd lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Mae'n debygol bydd y fframwaith yn helpu i adnabod y meysydd lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth yn gyffredinol.

Cwestiwn 2 - A yw'r saith canlyniad yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Mae'n ymddangos mai dyma'r meysydd pwysig i blant rhwng 0 a 7 oed ond fe fydd yn anoddach mesur rhai ohonynt.

Cwestiwn 3 - Os nad yw'r canlyniadau'n cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed, beth sydd ar goll?

Cwestiwn 4 – A ddylid cynnwys 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' fel canlyniad ar ei ben ei hun?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Dyma'r canlyniad sydd fwyaf tebygol o greu her ac rydym mwyaf ansicr ynglŷn â'i gynnwys yn y fframwaith. Mae'r nod o sicrhau bod plant yn hapus yn un pwysig iawn ond mae'n anodd iawn ei fesur yn wrthrychol.

Cwestiwn 5 - Os yw 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn ganlyniad ar ei ben ei hun, beth yw'r dangosyddion mwyaf priodol?

Gellir dadlau bod rhai o'r canlyniadau eraill yn y fframwaith yn cyfrannu at y canlyniad hwn, e.e. mae plentyn sydd yn teimlo'n ddiogel, yn cael gofal a chefnogaeth ac yn cael ei werthfawrogi, yn fwy tebygol o fod yn hapus.

Gellir dadlau bod deilliant 5 fel y'i diffinnir yn y "Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru," yn uchelgeisiol iawn fel dangosydd ar gyfer hapusrwydd plentyn.

Cwestiwn 6 - A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adnoddau / mecanweithiau / data eraill y gellid eu defnyddio i fesur canlyniadau o ran y boblogaeth?

a) Rydym yn ymwybodol bod un tîm ymgynghorol sydd yn gweithio gyda phlant 2-3 oed wedi datblygu dull syml o fesur lles plentyn o fewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Seiliwyd y ddogfen ar waith Ferre Laevers. Mae'r system yn rhoi sgôr lles plentyn yn ystod y cyfnod mae'n dechrau mewn lleoliad ac yna wrth adael.

b) Onid yw niferoedd plant mewn gofal a ffeindio cartrefi sefydlog iddynt yn holl bwysig er mwyn sicrhau cyfleoedd gorau ar gyfer cyflawni'r 7 canlyniad? Beth am ystadegau am blant sydd mewn gofal ac yn disgwyl am rieni maeth neu rieni i'w mabwysiadu a pha mor hir maent wedi bod yn disgwyl am gartref sefydlog? Mae ffigurau gan Awdurdodau Lleol ac maent yn cael eu cyhoeddi gan StatsCymru (StatsWales) yn flynyddol.

c) Beth am ystadegau am blant gydag anableddau neu salwch parhaol a'r cyfleoedd iddynt dderbyn cefnogaeth a gofal lliniarol (*respite care*). Efallai nad oes modd iddynt fod yn holl iach ond mae modd sicrhau cefnogaeth addas iddyn nhw a'u rhieni er mwyn gallu cyflawni gweddill y canlyniadau.

Cwestiwn 7 - A allwch chi weld sut mae eich cyfraniad chi at y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith?

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn siŵr

Os na, beth sydd ar goll?

Mae byd addysg yn cyfrannu at ddatblygiad y plentyn mewn nifer o ffyrdd ac mae'r cyfeiriadau at rai o ddeilliannau'r cyfnod sylfaen fel y'i diffinnir yn y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru, fel nodau, dangosyddion poblogaeth a mesurau perfformiad am ansawdd y gwasanaeth yn ymddangos yn addas.

Mae Dangosyddion Poblogaeth 2 ar gyfer "yn osgoi byw mewn tlodi" mwy tebygol o awgrymu'r posibilrwydd i'r plentyn adael sefyllfa tlodi fel oedolyn yn hytrach nag osgoi byw mewn tlodi fel plentyn.

Cwestiwn 8 – Y bwriad yw y bydd y fframwaith canlyniadau yn adnodd defnyddiol er mwyn cynllunio a gwerthuso ac yn cefnogi gwelliannau lle bo angen. Beth yw'r heriau posibl gyda fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar ar lefel ymarferol, os oes heriau o gwbl?

a) Sicrhau nad yw'n dod yn ymarfer or-fiwrocraataidd ac yn creu llwyth gwaith ychwanegol. Ni ddylai fod angen i sefydliadau gofnodi data ychwanegol neu data mewn mwy nag un dull at bwrpasau gwahanol.

b) Un o'r heriau mwyaf yw sicrhau ansawdd y gwasanaeth a chael mesurau perfformiad clir a dibynadwy. Yn ôl y Fframwaith Canlyniadau (adran 'yn dysgu ac yn datblygu /ansawdd y gwasanaeth- rhif 1') noder "Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiad yn ddwy oed ac yn dair oed." Ar gyfer mesur y cerrig milltir hyn, dibynnir ar asesiadau weithwyr iechyd a gall gweld cynnydd mewn plant rhwng 2-3 oed fod yn dipyn o ofyn gan nad yw cynnydd yn digwydd bob amser yn gyson.

Cwestiwn 9 - Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion eraill nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt yn eich barn chi, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

a) Mae'n amlwg bod yna broblem gynyddol yn y sector cynradd o blant yn mynychu dosbarthiadau meithrin yn 4 oed dal mewn cewynnau, heb ddysgu mynd i'r toiled, yn methu golchi dwylo, ddim yn brwsio dannedd, methu dal cyllell a fforc, ac ati. Mae disgwyl i ysgolion heddiw ddysgu'r pethau sylfaenol hyn sydd yn ymwneud â datblygiad corfforol a chymdeithasol y plentyn a dylai hyn fod wedi digwydd yn y cartref cyn i'r plentyn gyrraedd 4 oed. Mae hyn yn ymyrryd, wrth gwrs, â'r amser dysgu.

b) Nid yw'r cyfieithiad Cymraeg o'r derminoleg Cyfnod Sylfaen yn gyson a'r derminoleg a ddefnyddir yn y dogfennau Cyfnod Sylfaen, e.e. cyfieithiad o 'outcome' fel 'canlyniad' wrth gyfeirio at y nodau a dangosyddion poblogaeth. Defnyddir y gair 'deilliannau' yn y Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru ac felly dyma'r term a ddefnyddir gan ymarferwyr addysg. Mae'n holl bwysig sicrhau cysondeb terminoleg er mwyn osgoi dryswch.

c) Cyfeirir yn y ddogfen ymgynghorol at yr iaith Gymraeg a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r ffaith "nad ydym wedi cynnwys Amcan penodol ynglŷn â darpariaeth yn y Gymraeg gan ei bod yn rhan annatod o bopeth yr ydym yn ei wneud." Mae UCAC yn siomedig nad oes cyfeiriad penodol at y Gymraeg a dwyieithrwydd gan ein bod yn ymwybodol, o brofiad, bod perygl i'r Gymraeg fynd yn angof mewn rhai sefydliadau / gwasanaethau pan nad yw'n flaenoriaeth iddyn nhw. Credwn fod angen cynnwys cyfeiriad cryf at y disgwyliadau o ran y Gymraeg.

Mae'n debygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau ar gael yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych chi i'ch ymateb fod yn anhysbys, ticiwch yma:

